Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb 2026-27

Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg
Cryfderau: Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol. Mae rhanfwyaf y disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae bwydlen allgyrsiol da gan yr ysgol, gan gynnwys teithiau preswyl blynyddol. Mae rhanfwyaf y disgyblion yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae staff yn nabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Ceir perthynas broffesiynol rhwng disgyblion a staff. Mae'r staff yn barod iawn i ddatblygu'n broffesiynol ac i gydweithio ag eraill. Mae adeilad a safle'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd i'r dysgwyr. Mae'r gwersi wedi'u cynllunio'n dda ac yn adeiladu'n ddilynol ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth disgyblion. Mae staff yn ystyried beth mae disgyblion am ei ddysgu amdano ac mae eu diddordebau yn dylanwadu ar themâu ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ysgol hapus ac amrywiol iawn. Mae gan yr ysgol ethos ofalgar a chynhwysol gyda darpariaeth effeithiol i gefnogi lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi pob plentyn a'u teuluoedd. Mae trefniadau pontio'n gryf rhwng yr Ysgol ac Ysgol Glantaf, Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn herio'n briodol. Mae gweledigaeth glir yn ei lle sy'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru; mae hyn wedi ei ddatblygu'n dda gyda disgyblion, rhieni /gofalwyr a llywodraethwyr.
Meysydd i'w datblygu: Ymwreiddio strategaethau uwch-fedrau darllen er mwyn gwella dealltwriaeth, meithrin annibyniaeth a chryfhau medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol.

Datlbygu ymhellach arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn cryfhau cyfraniadau staff a disgyblion at weithdrefnau'r ysgol. Datblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion drwy wreiddio dysgu sy'n seiliedig ar ymholi, heriau agored a chwestiynu lefel uwch ar draws y cwricwlwm.

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025 /2026	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Cryfhau gweithdrefnau asesu er mwyn diogelu lefel her cyson a disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl.	Mae defnydd o ddata a'r daenlen dracio wedi cryfhau gallu staff i fonitro cynnydd a gwneud penderfyniadau addysgu mwy effeithiol. Mae disgwyliadau a lefel yr her wedi dod yn fwy cyson ar draws yr ysgol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr mwy abl. Mae Cyfarfodydd Cynnydd wedi cynyddu atebolrwydd ac wedi gwella ansawdd trafodaethau proffesiynol am gynnydd dysgwyr. Mae cymedroli, fforymau clwstwr a datblygu portffolio o waith wedi cryfhau cysondeb asesu a disgwyliadau staff. Mae angen parhau i ddatblygu'r defnydd o gerrig milltir asesu a chryfhau ansawdd cwestiynu ac adborth er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ar gynnydd.
Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.	Mae amgylcheddau dysgu ar draws yr ysgol bellach yn hyrwyddo annibyniaeth yn fwy effeithiol. Mae strategaethau megis Singapore Maths, Llais 21 ac Olwyn TASC wedi cynyddu dewis, perchnogaeth ac ymgysylltiad disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwy o hyder wrth wneud penderfyniadau, datrys problemau a gweithio'n annibynnol. Yn yr Ysgol Isaf, mae egwyddorion Froebel wedi cyfrannu at well datblygiad llafar, rhifedd a dewis annibynnol y dysgwyr. Mae angen sicrhau mwy o gysondeb mewn cwestiynu o ansawdd uchel a darparu cyfleoedd annibynnol o'r safon uchaf ym mhob dosbarth.
Miniogi gweithdrefnau'r ysgol i leihau'r bwlch tlodi, gyda ffocws ar gryfhau medrau darllen disgyblion sydd o dan anfantais.	Mae systemau olrhain a monitro newydd wedi galluogi staff i adnabod a chefnogi dysgwyr difreintiedig yn fwy effeithiol. Mae hyfforddiant staff a ffocws ar ffonics, geirfa, rhuglder a dealltwriaeth wedi codi ansawdd addysgu darllen. Mae ymyriadau wedi'u targedu a defnydd pwrpasol o ddata wedi arwain at well hyder, ymgysylltiad a chynnydd darllen ymhlith llawer o ddisgyblion dan anfantais.

	Mae'r cwricwlwm darllen yn fwy cyfoethog, cynhwysol ac yn darparu her briodol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Y cam nesaf yw cryfhau ymateb i waith disgyblion, ehangu darllen ar-lein a datblygu partneriaethau â theuluoedd i gefnogi darllen y tu allan i'r ysgol.

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2026/2027		
Blaenoriaeth	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Blaenoriaeth 1 **Ymwreiddio strategaethau uwch-fedrau darllen er mwyn gwella dealltwriaeth, meithrin annibyniaeth a chryfhau medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol.**	Creu Polisi a Gweledigaeth Darllen ysgol gyfan. Hyfforddiant staff ar uwch-fedrau darllen a Monster Phonics. Asesu darllen yn dymhorol a defnyddio cerrig milltir darllen. Cynnal prosiectau darllen ysgol gyfan a mentrau darllen ychwanegol. Datblygu partneriaethau gyda rhieni a gwirfoddolwyr i gefnogi darllen.	Hyfforddiant Clwstwr Uwch-fedrau Darllen. Cymorth Monster Phonics. Cyllid ar gyfer ymweliadau, adnoddau a llwyfannau digidol. Cefnogaeth rhieni a gwirfoddolwyr.
Cerrig Milltir Rhagfyr Polisi Darllen wedi'i fabwysiadu a'i rannu gyda staff. Pob dosbarth wedi cwblhau asesiadau darllen cychwynnol. Prosiect darllen tymor yr hydref a'r cynllun Darllenwyr 10 Munud wedi'u sefydlu.	**Cerrig Milltir Mawrth** Tystiolaeth o ddefnydd cyson o strategaethau uwch-fedrau darllen. Cyfarfodydd cynnydd yn dangos cynnydd yn y rhan fwyaf o ddisgyblion. Rhieni wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a chefnogaeth darllen.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau darllen yn annibynnol. Gwelliant mesuradwy mewn deall, dehongli a dadansoddi testunau. Strategaethau uwch-fedrau darllen wedi'u hymwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol.
Blaenoriaeth 2 **Datblygu ymhellach arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn cryfhau cyfraniadau staff a disgyblion at weithdrefnau'r ysgol.**	Adolygu a diffinio rolau a chyfrifoldebau arwain pob aelod o staff. Sefydlu rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer staff. Datblygu timau gwella ysgol ac arweinwyr canol. Cynnwys disgyblion yn rheolaidd mewn hunanarfarnu a monitro. Cryfhau partneriaethau rhwng staff, disgyblion a llywodraethwyr.	Hyfforddiant arweinyddiaeth. Cyllid GDP ar gyfer datblygiad proffesiynol. Cefnogaeth llywodraethwyr cyswllt. Cyfleoedd cydweithio mewn rhwydweithiau allanol.

Cerrig Milltir Rhagfyr Rolau arwain staff wedi'u hadolygu a'u diffinio'n glir. Timau gwella ysgol a phwyllgorau disgyblion yn weithredol. Cyfleoedd monitro a gwerthuso cyntaf wedi'u harwain gan staff a disgyblion.	**Cerrig Milltir Mawrth** Arweinwyr canol yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd eu meysydd. Tystiolaeth fod barn staff yn llywio gweithgareddau gwella. Llais y disgybl yn dylanwadu ar benderfyniadau a blaenoriaethau'r ysgol.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Y rhan fwyaf o staff yn arwain mentrau neu brosiectau yn llwyddiannus. Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dangos effaith eu cyfraniad. Diwylliant cryf o arweinyddiaeth gydweithredol wedi'i sefydlu ar draws yr ysgol.
Blaenoriaeth 3 **Datblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion drwy wreiddio dysgu sy'n seiliedig ar ymholi, heriau agored a chwestiynu lefel uwch ar draws y cwricwlwm.**	Hyfforddi staff ar egwyddorion dysgu sy'n seiliedig ar ymholi. Datblygu a threialu canllawiau cwestiynu effeithiol ysgol gyfan. Sefydlu deuawdau a thriawdau addysgeg i rannu arfer dda. Datblygu banc o gwestiynau lefel uwch a gweithgareddau ymholi. Monitro effaith drwy deithiau dysgu, craffu a llais y disgybl.	Hyfforddiant CCD ar gwestiynu effeithiol. Cyfleoedd i arsylwi arfer dda. Amser ar gyfer cydweithio ac ymchwilio. Cefnogaeth gan y Tîm Arwain Strategol.
Cerrig Milltir Rhagfyr Staff wedi derbyn hyfforddiant ac wedi cyflwyno strategaethau ymholi. Canllawiau cwestiynu ysgol gyfan wedi'u mabwysiadu. Banc cychwynnol o weithgareddau ymholi ar gael i staff.	**Cerrig Milltir Mawrth** Tystiolaeth mewn llyfrau a chynlluniau o heriau agored ac ymholi. Deuawdau a thriawdau addysgeg yn rhannu arferion effeithiol. Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwelliant mewn rhesymu a chyfiawnhau syniadau.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau meddwl beirniadol yn annibynnol. Cwestiynu lefel uwch wedi'i ymwreiddio yn yr addysgu ar draws yr ysgol. Tystiolaeth glir o gynnydd mewn datrys problemau, ymholi a rhesymu ar draws y cwricwlwm.